


# Dolen Machno



## Ymarfer 1

Wrth wylio'r fideo, cwblhewch y tabl canlynol.

Enw'r trac	Hyd (milltir)	Newid mewn uchder (troedfedd)	Lefel anhawster
Croeso i Machno	0.49		
Chopsy		-85	
Casper			3
Ffastis un, dau a thri	0.84		
Igam ogam		98	
Dal ati			10
Bendigedig	1.02		
Man a man a mwnci		-271	
Gwêl y grib			3
Super sych			

**Ymarfer 2**

Y newid mewn uchder ar gyfer y daith gyfan oedd 1738 troedfedd.

- (a) Ysgrifennwch y rhif yma mewn geiriau. ....  
.....
- (b) Talgrynnwch y rhif yma i'r deg troedfedd agosaf. ....
- (c) Talgrynnwch y rhif yma i'r can troedfedd agosaf. ....

**Ymarfer 3**

- (a) Cyfrifwch gyfanswm hyd y traciau sengl ar y daith. ....  
.....
- (b) Os oedd hyd y daith i gyd yn 12 milltir, pa hyd a deithiwyd ar ffyrdd y goedwig (ac felly oddi ar y traciau sengl)?  
.....
- (c) Cyfrifwch gymedr hyd y traciau sengl ar y daith. ....
- (ch) Talgrynnwch eich ateb i (c) i un lle degol. ....
- (d) Talgrynnwch eich ateb i (c) i ddau le degol. ....
- (dd) Enwch y traciau sydd efo hyd sy'n fwy na'r cymedr. ....  
.....

**Ymarfer 4**

- (a) Cyfrifwch gymedr lefel anhawster y traciau. ....
- (b) Cyfrifwch ganolrif lefel anhawster y traciau. ....  
.....
- (c) Cyfrifwch fodd lefel anhawster y traciau. ....
- (ch) Cyfrifwch amrediad lefel anhawster y traciau. ....

**Ymarfer 5**

- (a) Cyfrifwch gyfanswm y newid mewn uchder. ....  
.....
- (b) Cyfrifwch gymedr y newid mewn uchder. ....
- (c) Cyfrifwch ganolrif y newid mewn uchder. ....  
.....
- (ch) Cyfrifwch fodd y newid mewn uchder. ....
- (ch) Cyfrifwch amrediad y newid mewn uchder. ....
- (d) Enwch y traciau sydd efo newid mewn uchder sy'n llai na'r canolrif. ....  
.....

**Ymarfer 6**

Dyma ddata o ap *Strava* am deithiau Dr Evans ar hyd trac Gwêl y Grib.

Safle	Dyddiad	Amser (munudau ac eiliadau)	Buanedd (mya)
1	Ionawr 4ydd, 2022	4:11	
2	Rhagfyr 29ain, 2021	4:14	
3	Tachwedd 21ain, 2021	4:22	
4	Awst 16eg, 2021	4:35	
5	Gorffennaf 28ain, 2022	4:46	
6	Mehefin 25ain, 2022	6:30	
7	Awst 4ydd, 2021	6:34	

(a) Cwblhewch y golofn Buanedd, gan gofio mai hyd Gwêl y Grib yw 0.59 milltir. Rhowch eich atebion yn gywir i un lle degol. Awgrym: bydd angen i chi ddefnyddio'r botwm amser  ar eich cyfrifiannell, gan fewnbynnu (er enghraifft) 4:11 fel 0 awr, 4 munud, 11 eiliad.

(b) Sawl diwrnod basiodd heibio rhwng y dyddiadau efo safleoedd 1 a 2 yn y tabl? .....

(c) Sawl mis basiodd heibio rhwng y dyddiadau efo safleoedd 1 a 7 yn y tabl? .....

(ch) Sawl eiliad sydd rhwng yr amser byrraf a'r amser hiraf yn y tabl? .....

(d) Mae Dr Evans yn dymuno cwblhau Gwêl y Grib mewn llai na 4 munud.

(i) Sawl **eiliad** yw ei amser byrraf hyd yma? .....

(ii) Sawl **eiliad** sydd raid i Dr Evans wella er mwyn cyrraedd ei darged? .....

(iii) Pa ganran o'r amser byrraf sydd angen i Dr Evans ei wella er mwyn cyrraedd ei darged?

Rhowch eich ateb i'r ganran agosaf. ....

(iv) Pe bai Dr Evans yn cyrraedd ei darged, beth fydd ei fuanedd lleiaf wrth wneud hyn?

.....

**Ymarfer 7**

Hyd trac Croeso i Machno yw 0.49 milltir. Beth yw hyd y trac hwn mewn cilometrau? .....

**Ymarfer 8**

Newid mewn uchder trac Ffastis un, dau a thri yw -354 troedfedd.


(a) Beth yw'r newid mewn uchder yma mewn llathenni? .....

(b) Beth yw'r newid mewn uchder yma mewn metrau? Rhowch eich ateb i'r metr agosaf.

.....



ATEBION



## Ymarfer 1

Wrth wyllo'r fideo, cwblhewch y tabl canlynol.

Enw'r trac	Hyd (milltir)	Newid mewn uchder (troedfedd)	Lefel anhawster
Croso i Machno	0.49	121	6
Chopsy	0.49	-85	4
Casper	0.70	68	3
Ffastis un, dau a thri	0.84	-354	5
Igam ogam	0.58	98	7
Dal ati	1.40	146	10
Bendigedig	1.02	-282	4
Man a man a mwnci	0.85	-271	7
Gwêl y grib	0.59	-91	3
Super sych	0.88	-352	9

**Ymarfer 2**

Y newid mewn uchder ar gyfer y daith gyfan oedd 1738 troedfedd.

(a) Ysgrifennwch y rhif yma mewn geiriau. **Un mil saith gant tri deg wyth troedfedd.**

(b) Talgrynnwch y rhif yma i'r deg troedfedd agosaf. **1740 troedfedd**

(c) Talgrynnwch y rhif yma i'r can troedfedd agosaf. **1700 troedfedd**

**Ymarfer 3**

(a) Cyfrifwch gyfanswm hyd y traciau sengl ar y daith.

$$0.49 + 0.49 + 0.70 + 0.84 + 0.58 + 1.40 + 1.02 + 0.85 + 0.59 + 0.88 = 7.84 \text{ milltir}$$

(b) Os oedd hyd y daith i gyd yn 12 milltir, pa hyd a deithiwyd ar ffyrdd y goedwig (ac felly oddi ar y traciau sengl)?

$$12 - 7.84 = 4.16 \text{ milltir}$$

(c) Cyfrifwch gymedr hyd y traciau sengl ar y daith.  $7.84 \div 10 = 0.784$  milltir

(ch) Talgrynnwch eich ateb i (c) i un lle degol. **0.8 milltir**

(d) Talgrynnwch eich ateb i (c) i ddau le degol. **0.78 milltir**

(dd) Enwch y traciau sydd efo hyd sy'n fwy na'r cymedr.

**Ffastis un, dau a thri; Dal ati; Bendigedig; Man a man a mwnci; Super sych.**

**Ymarfer 4**

(a) Cyfrifwch gymedr lefel anhawster y traciau.  $58 \div 10 = 5.8$

(b) Cyfrifwch ganolrif lefel anhawster y traciau. **Mewn trefn: 3, 3, 4, 4, 5, 6, 7, 7, 9, 10**

**Y canolrif yw 5.5 (hanner ffordd rhwng 5 a 6).**

(c) Cyfrifwch fodd lefel anhawster y traciau. **3, 4 a 7**

(ch) Cyfrifwch amrediad lefel anhawster y traciau.  $10 - 3 = 7$

**Ymarfer 5**

(a) Cyfrifwch gyfanswm y newid mewn uchder.

$$121 + -85 + 68 + -354 + 98 + 146 + -282 + -271 + -91 + -352 = -1002 \text{ troedfedd.}$$

(b) Cyfrifwch gymedr y newid mewn uchder.  $-1002 \div 10 = -100.2$  troedfedd.

(c) Cyfrifwch ganolrif y newid mewn uchder. **Mewn trefn: -354, -352, -282, -271, -91, -85, 68, 98, 121, 146.**

**Y canolrif yw -88 troedfedd (hanner ffordd rhwng -91 troedfedd a -85 troedfedd).**

(ch) Cyfrifwch fodd y newid mewn uchder. **Dim modd (pob rhif yn wahanol).**

(ch) Cyfrifwch amrediad y newid mewn uchder.  $146 - -354 = 500$  troedfedd.


(d) Enwch y traciau sydd efo newid mewn uchder sy'n llai na'r canolrif.

**Ffastis un, dau a thri; Super sych; Bendigedig; Man a man a mwnci; Gwêl y grib.**

**Ymarfer 6**

Dyma ddata o ap *Strava* am deithiau Dr Evans ar hyd trac Gwêl y Grib.

Safle	Dyddiad	Amser (munudau ac eiliadau)	Buanedd (mya)
1	Ionawr 4ydd, 2022	4:11	8.5
2	Rhagfyr 29ain, 2021	4:14	8.4
3	Tachwedd 21ain, 2021	4:22	8.1
4	Awst 16eg, 2021	4:35	7.7
5	Gorffennaf 28ain, 2022	4:46	7.4
6	Mehefin 25ain, 2022	6:30	5.4
7	Awst 4ydd, 2021	6:34	5.4

(a) Cwblhewch y golofn Buanedd, gan gofio mai hyd Gwêl y Grib yw 0.59 milltir. Rhowch eich atebion yn gywir i un lle degol. Awgrym: bydd angen i chi ddefnyddio'r botwm amser  ar eich cyfrifiannell, gan fewnbynnu (er enghraifft) 4:11 fel 0 awr, 4 munud, 11 eiliad.

(b) Sawl diwrnod basiodd heibio rhwng y dyddiadau efo safleoedd 1 a 2 yn y tabl? **6 diwrnod.**

(c) Sawl mis basiodd heibio rhwng y dyddiadau efo safleoedd 1 a 7 yn y tabl? **5 mis.**

(ch) Sawl eiliad sydd rhwng yr amser byrraf a'r amser hiraf yn y tabl? **143 eiliad.**

(d) Mae Dr Evans yn dymuno cwblhau Gwêl y Grib mewn llai na 4 munud.

(i) Sawl **eiliad** yw ei amser byrraf hyd yma?  $4 \times 60 + 11 = 251$  eiliad.

(ii) Sawl **eiliad** sydd raid i Dr Evans wella er mwyn cyrraedd ei darged? **12 eiliad.**

(iii) Pa ganran o'r amser byrraf sydd angen i Dr Evans ei wella er mwyn cyrraedd ei darged?

Rhowch eich ateb i'r ganran agosaf.  $12 \div 251 \times 100 = 5\%$ , i'r ganran agosaf.

(iv) Pe bai Dr Evans yn cyrraedd ei darged, beth fydd ei fuanedd lleiaf wrth wneud hyn?

$0.59$  milltir  $\div$  0 awr 3 munud 59 eiliad = **8.9 mya**, i un lle degol.

**Ymarfer 7**

Hyd trac Croeso i Machno yw 0.49 milltir. Beth yw hyd y trac hwn mewn cilometrau?  $0.49 \times 1.6 = 0.784$  km

**Ymarfer 8**

Newid mewn uchder trac Ffastis un, dau a thri yw  $-354$  troedfedd.

(a) Beth yw'r newid mewn uchder yma mewn llathenni?  $-354 \div 3 = -118$  llathen.

(b) Beth yw'r newid mewn uchder yma mewn metrau? Rhowch eich ateb i'r metr agosaf.

$-118 \div 0.9 = 131$  m, i'r metr agosaf.